Cronfa Cadernid Economaidd

NODIADAU CYFARWYDDYD

DIBEN Y GRONFA

Grant yw hwn i ddarparu cymorth ariannol brys i fusnesau mewn sectorau lletygarwch, hamdden ac atyniadau a'u cadwyni cyflenwi :

a) Wedi gorfod aros ar gau neu'n methu â masnachu oherwydd y cyfyngiadau parhaus rhwng 26 Rhagfyr 2021 a 14 Chwefror 2021

b) Yn Ofod Digwyddiadau ac atyniadau wedi'u heffeithio'n ddifrifol gan reoliadau ymbellhau cymdeithasol parhaus

c) Busnesau eraill o'r sectorau lletygarwch, hamdden ac atyniadau a'u cadwyn gyflenwi* sydd wedi cael eu heffeithio'n sylweddol efo dros 50% o'r effaith ar drosiant rhwng 13 Rhagfyr 2021 a 14 Chwefror 2022. * Diffinnir busnesau'r gadwyn gyflenwi fel busnes sy'n cynhyrchu 60% neu fwy o'i refeniw gwerthiant gan fusnesau y mae'r cyfyngiadau'n effeithio'n uniongyrchol arnynt.

ac yn

Wedi cael eu heffeithio yn negyddol sylweddol drwy lai o drosiant o 50% neu fwy ym mis Rhagfyr ac Chwefror 2021 o'i gymharu â mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2019 mis Chwefror 2020.

Mae'r gronfa'n ceisio ategu'r mesurau eraill sydd wedi'u cyflwyno mewn ymateb i Covid-19 er mwyn cefnogi busnesau, mentrau cymdeithasol a sefydliadau elusennol yng Nghymru.

Darllenwch y canllawiau hyn yn ofalus cyn cwblhau'r cais. Bydd yr asesiad o'ch cais yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarperir gennych yn y ffurflen gais. **Ni** fydd yn bosibl newid unrhyw wybodaeth unwaith y byddwch wedi cyflwyno'ch cais.

BUSNES CYMRU

Mae Busnes Cymru yn darparu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau newydd, busnesau micro a busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Gall y gwasanaeth eich helpu i ddeall beth yw eich anghenion a darparu pecynnau cymorth wedi'u teilwra gan gynnwys mynediad at adnoddau ar-lein, gweithdai, cynghorwyr arbenigol a mentoriaid. Yn ogystal â gweithio â chi ar ddiagnostig busnes a chynllun gweithredu, gall ein cynghorwyr hefyd ddarparu cyngor ariannol wedi'i dargedu a mynediad at fath arall o gymorth y gallech elwa ohono.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i https://businesswales.gov.wales/cy.

CONTRACT ECONOMAIDD LLYWODRAETH CYMRU

Mae Cynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru yn sbarduno newid mewn polisi a chyflawni er mwyn creu economi o dwf cynhwysol sy'n hybu ein cyfoeth a'n lles ac yn lleihau anghydraddoldebau. Mae'r Contract Economaidd yn sail i berthynas newydd â busnes yn seiliedig ar yr egwyddor o fuddsoddi cyhoeddus gyda phwrpas cymdeithasol er mwyn helpu busnesau i ymateb i heriau'r dyfodol.

Cronfa Cadernid Economaidd – PWY ALL WNEUD CAIS ?

Gall Unig Fasnachwyr / Partneriaethau a chwmnïau Cyfyngedig sy'n bodloni'r meini prawf canlynol wneud cais am y grant hwn:

Unig Fasnachwyr / Partneriaethau – Meini Prawf Cymhwysedd

- ✓ Cyflogi o leiaf un unigolyn drwy gynllun Talu Wrth Ennill
  Noder bod yn rhaid i'r un cyflogai weithio'r hyn sydd gyfwerth ag amser llawn h.y. 30 awr. Gall hyn gynnwys staff rhan-amser ond mae'n rhaid iddo fod gyfwerth ag o leiaf un aelod staff llawn amser a gall gynnwys y perchennog.
- ✓ Pencadlys neu gyfeiriad gweithredu yng Nghymru ac yn cyflogi pobl yng Nghymru
- ✓ Gostyngiad o 50% o leiaf mewn trosiant (o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2019 neu gyfnod tebyg yn 2020 os yw'n fusnes newydd yn ystod y 12 mis diwethaf) o ganlyniad i'r cyfyngiadau a gyflwynwyd
- ✓ Mae angen i fusnesau fod wedi cofrestru at ddibenion TAW (Ar 13 Rhagfyr 2021) gyda throsiant blynyddol sy'n fwy na £85,000 cyn pandemig Covid 19, neu
- ✓ Yn sector wedi'i eithrio rhag TAW gyda throsiant sy'n fwy na £85,000. Mae manylion yr eithriad TAW ar gael yn: ***https://www.gov.uk/guidance/vat-exemption-and-partial-exemption***
- ✓ Rhaid i fusnesau a gefnogir anelu at gynnal cyflogaeth
- ✓ Dim ond un cais i bob busnes
- ✓ Ceisiadau i'w cyflwyno gan berchennog y busnes ac **nid asiantau** sy'n gweithredu ar eu rhan. Bydd ceisiadau a gyflwynir gan asiant ar ran busnesau **yn cael eu gwrthod**.

Nodiadau Eraill - Meini Prawf Cymhwysedd

- ✓ Mae mentrau cymdeithasol **yn gymwys** os ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd uchod
- ✓ Mae elusennau'n gymwys ond mae'n rhaid i drosiant fod yn fwy na £85,000 https://www.gov.uk/find-charity-information
- ✓ Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried busnesau a sefydliadau yn gymwys i gael y grant hwn hyd yn oed os ydynt wedi derbyn cyllid gan y Gronfa Cadernid Economaidd - Cam 1 / 2 / 3 / Cymorth Penodol i'r Sector 1 / Cymorth Penodol i'r Sector 2 a / ERF Mai Mehefin / ERF Gorffennaf Awst / neu Grantiau Ardrethi Annomestig
- ✓ Cofiwch nad yw'r gweithgareddau canlynol yn gymwys i gael arian o'r cynllun hwn, (1) at ddibenion pleidiau gwleidyddol; (2) hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol penodol; (3) hapchwarae; (4) pornograffi; (5) cynnig gwasanaethau rhywiol; (6) unrhyw fath o weithgareddau anghyfreithlon; neu (7) unrhyw fath o weithgaredd a allai, yn ein barn ni, ddwyn anfri ar Lywodraeth Cymru.

Rheoli Cymhorthdal

Mae Llywodraeth y DU a'r UE bellach wedi cytuno ar gytundeb ar eu perthynas yn y dyfodol sy'n gofyn am newidiadau i'r fframwaith cyfreithiol blaenorol ar gyfer Cymorth Gwladwriaethol.

CRONFA CADERNID ECONOMAIDD - FAINT ALLWCH CHI WNEUD CAIS AMDANO?

Ar gyfer busnesau sy'n bodloni'r meini prawf uchod, mae'r dyfarniadau grant canlynol ar gael:

FTE / Type	**Unrhyw fusnes sydd ar gau gan reoliad** Symiau Grant Sefydlog (i gwmpasu cyfnod o 13 Rhagfyr 2021 – 14 Chwefror 2022)	**Gofod Digwyddiadau ac atyniadau sydd ar agor** ond sy'n profi trosiant is Symiau Grant Sefydlog (i gwmpasu cyfnod o 13 Rhagfyr 2021 – 14 Chwefror 2022)	**Busnesau eraill o'r sectorau lletygarwch, hamdden ac atyniadau a'u cadwyn gyflenwi** sydd ar agor ond sy'n profi trosiant is Symiau Grant Sefydlog (i gwmpasu cyfnod o 13 Rhagfyr 2021 – 14 Chwefror 2022)
1-3	£5000	£3500	£2500
4-9	£10000	£7000	£5000
10-49	£15000	£12000	£7500
50-99	£20000	£15000	£10000
100+	£25000	£20000	£15000

Cyfwerth ag Amser Llawn (30 awr neu fwy)

I gyfrifo'r ffigur Cyfwerth ag Amser llawn, gymerwch gyfanswm oriau staff rhan-amser / 30 + nifer y staff llawn amser (dros 30 awr). Os yw'r swydd yn llai na 15 awr yr wythnos dylech dalgrwn yr oriau i wneud 30 fel un FTE.

Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unigol a bydd y grant hwn yn cael ei dalu'n ôl disgresiwn llwyr Llywodraeth Cymru. **Nid oes proses apelio.**

CRONFA CADERNID ECONOMAIDD - SUT I WNEUD CAIS

Gallwch wneud cais am y grant drwy'r ffurflen gais ar-lein https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy

Mae'r Gronfa Cadernid Economaidd yn agored i geisiadau wythnos yn dechrau ar 17 Ionawr 2022

Mae gan Lywodraeth Cymru ddisgresiwn llwyr o ran hyd a thelerau'r gronfa.

Bydd pob cais a gyflwynir gyda data anghyflawn neu anghywir **yn cael ei wrthod**.

CRONFA CADERNID ECONOMAIDD - CANLLAWIAU AR LENWI'R FFURFLEN

Mae'r tudalennau canlynol yn amlinellu'r wybodaeth sydd ei hangen i gwblhau'r cais.

Dalier Sylw

- Cofiwch sicrhau eich bod yn derbyn cwcis wrth gyrchu'r wefan a'r ffurflen gais

Adran 1 – Eich **Manylion Personol**

Mae'r rhan hon yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi, 'yr ymgeisydd'.

Mae'n rhaid i'r cais gael ei gwblhau gan Lofnodwr Awdurdodedig y busnes. Gall Llofnodwr Awdurdodedig fod yn un o'r canlynol:

- Cyfarwyddwr: cyfarwyddwr cofrestredig cwmni;
- Ymddiriedolwr: ymddiriedolwr cofrestredig elusen;
- Partner: partner/aelod o bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig dynodedig neu bartner cyfreithiol mewn busnes;
- Perchennog: perchennog busnes

Adran 2 – Gwybodaeth am eich Busnes

Rhowch wybodaeth am eich busnes.

Cofiwch sicrhau eich bod yn cyflwyno cyfeiriad e-bost cywir gan y bydd yr holl ohebiaeth sy'n ymwneud â'ch cais am grant yn cael ei e-bostio i'r cyfeiriad hwn

I fod yn gymwys am gymorth, mae'n rhaid i chi naill ai fod:

- yn fusnes sydd wedi'i gofrestru â Thŷ'r Cwmnïau neu'r Comisiwn Elusennau gyda throsiant o £85,000 neu fwy
- yn fusnes sydd wedi'i gofrestru at ddibenion TAW gyda throsiant o £85,000 neu fwy
- yn fusnes sydd wedi'i eithrio rhag TAW gyda throsiant o £85,000 neu fwy

Gofynnir i chi ddarparu naill ai rhif y cwmni cofrestredig neu'r rhif TAW i'n galluogi i ddilysu eich busnes.

Cofiwch sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir. **Ni fydd unrhyw gais sy'n cynnwys data anghywir yn cael ei brosesu a bydd eich cais yn cael ei wrthod.**

Adran 3 – Effaith cyfyngiadau ar eich busnes

Amlinellwch sut mae'r cyfyngiadau parhaus a gyhoeddwyd a ddaeth i rym ar 26 Rhagfyr 2021 wedi cael effaith ar eich busnes.

Er enghraifft yn yr adran hon dylech nodi sut y bydd y cyfyngiadau'n arwain at ostyngiad o dros 50% mewn trosiant

Adran 4 – Gwybodaeth am y Gronfa

Amlinellwch y swm rydych yn gwneud cais amdano a rhowch fanylion unrhyw gymorth arall a gafwyd gan y sector cyhoeddus hyd yma.

Mae 3 adran wahanol ar gyfer cronfeydd blaenorol :

De Minimis – Mae'r adran hon ar gyfer unrhyw Gyllid De Minimis yn ystod y 3 blynedd diwethaf

Fframwaith Dros Dro Covid 19 – Mae hwn ar gyfer unrhyw gyllid sy'n gysylltiedig â Covid ers mis Ebrill 2020 (mae hyn yn cynnwys ERF 1 /2 / 3).

Rheoli Cymorthdaliadau Llywodraeth Cymru – Mae hyn ar gyfer unrhyw gyllid ers 1 Ionawr 2021

Adran 5 - **Manylion Banc**

Defnyddir yr wybodaeth hon i wneud y taliad Grant i chi.

Cofiwch sicrhau bod manylion banc cywir yn cael eu darparu. Bydd manylion banc anghywir yn arwain at beidio â thalu'r grant a bydd eich cais yn cael ei wrthod.

Dylid gwneud taliadau i gyfrif banc busnes, os yw'n ymddangos bod manylion y cyfrif yn gyfrif personol, byddwn yn cysylltu â chi i sefydlu ei fod yn gyfrif dilys ar gyfer trafodion busnes.

Adran 6 – Datganiadau

Mae'n bwysig iawn eich bod wedi darllen y ddogfen ganllaw hon ac yn deall y telerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r cais hwn am Grant.

Os ydych yn cytuno â thelerau ac amodau'r ddogfen hon a gallwch gadarnhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn y cais yn wir ac yn gywir, yna mae'n rhaid i chi dicio'r blwch a chyflwyno'ch cais.

CRONFA CADERNID ECONOMAIDD - BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I'R CAIS GAEL EI DDERBYN?

Unwaith y byddwn yn derbyn eich cais, byddwch yn derbyn cyfeirnod cais. **Gwnewch nodyn o'r cyfeirnod cais ar gyfer gohebiaeth yn y dyfodol.**

Gwneir penderfyniadau ar geisiadau yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarperir yn y ffurflen gais a gwiriadau diwydrwydd dyladwy pellach a gynhelir.

Ein nod yw prosesu ceisiadau am grant o fewn **6 wythnos** or gronfa yn cau.

Ar ôl i’ch cais gael ei asesu, byddwch yn derbyn e-bost i gadarnhau a yw eich cais wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor neu wedi'i wrthod.

Nid yw cymeradwyaeth mewn egwyddor yn gadarnhad o ddyfarniad grant gan y bydd gwiriadau diwydrwydd dyladwy pellach yn cael eu cynnal. Gofynnir i ymgeiswyr llwyddiannus dderbyn y cynnig o ddyfarniad grant a'r telerau ac amodau cysylltiedig a darparu datganiadau banc ar gyfer Hydref, Tachwedd a Rhagfyr 2021, o fewn 7 diwrnod i'w dderbyn, cyn y gellir gwneud taliad.

Bydd methu ag ymateb o fewn yr amserlen hon yn golygu y bydd y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl. Rhowch yr holl wybodaeth y gofynnir amdani yn eich ymateb.

Y cyfeiriad e-bost yw Covidmicrofund@gov.wales

Telir grantiau ar y sail bod 100% o'r grant yn cael ei dalu ymlaen llaw, gyda gofyniad y byddwn yn gofyn i'r busnes gyflwyno tystiolaeth cymhwysedd yn ddiweddarach.

Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, byddwch yn derbyn e-bost yn amlinellu'r rheswm dros wrthod.

Nid oes proses apelio.

Cronfa Cadernid Economaidd - AD-DALIAD GRANT

Dylai ymgeiswyr nodi y gall Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol ad-dalu'r grant yn llawn neu'n rhannol os na ddefnyddir yr arian at y dibenion a nodir ar y ffurflen gais, neu os gwelir bod yr wybodaeth a gyflwynwyd yn anghywir.

Mae'r ymgeisydd yn ymrwymo i gytundeb â Llywodraeth Cymru a bydd telerau ac amodau'n cael eu gorfodi drwy ofyn am brawf, ar ôl dyfarnu'r grant.

Bydd y wybodaeth hon hefyd yn cael ei rhannu â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i helpu i fynd i'r afael â thwyll fel y nodwyd yn ein datganiad preifatrwydd.

Cronfa Cadernid Economaidd - MANYLION CYSWLLT

Rhaid anfon pob ymholiad at Covidmicrofund@gov.wales